# AWDURDOD AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun, Hydref 19eg 2009 yn Siambr y Cyngor, Bodlondeb, Conwy. Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y bore.

**YN BRESENNOL**

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| S Frobisher (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| A M Jones (Is-Gadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| P C Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| T Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| E C George | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W Knightly | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Mackie | Cyngor Sir y Fflint |
| A Minshull | Cyngor Sir y Fflint |
| J V Owen | Cyngor Sir Ynys Môn |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| T Roberts | Cyngor Gwynedd |
| W P Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| M Thomas | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G O Williams | Cyngor Gwynedd |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); B Davies (Swyddog Monitro i'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); C Hanks, P Claydon ac R Simmons (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G W Griffiths (Uwch Reolwr Gweithrediau); R Fairhead (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); G Brandrick (Rheolwr Hyfforddiant a Datblygu); L Roberts MBE (Rheolwr yr Ystafell Reoli); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); I Williams (Rheolwr Cefnogaeth y Grŵp Gweithredol); J Brown (Rheolwr Cyllid); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); A Davies (Swyddog Cyswllt yr Aelodau) ac S Jones (Cynorthwy-ydd Cyswllt yr Aelodau); Joanne West (KPMG) a John Weston (Swyddfa Archwilio Cymru).

YMDDIHEURIADAU

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| B Blackmore | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| M Griffith | Cyngor Gwynedd |
| G James | Cyngor Sir y Fflint |
| P Jeffares | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| E M Jones | Cyngor Gwynedd |
| N M Jones | Cyngor Sir y Fflint |
| G Williams | Cyngor Sir Ddinbych |

1 RHYBUDD O FATERION BRYS

1.1 Rhoddodd y Cadeirydd wybod bod un eitem wedi dod i law i'w hystyried. Cytunwyd i drafod yr eitem hon ar yr adeg hon.

1.2 Roedd Atal Tân wedi gofyn i'r Awdurdod enwebu Ymddiriedolwr i'r Bwrdd Atal Tân. Enwebodd yr Aelodau y Cynghorydd S Frobisher i gymryd lle Cynghorydd T Roberts. Diolchodd y Cynghorydd S Frobisher i'r aelodau am yr enwebiad ac i'r Cynghorydd T Roberts am gynrychioli'r Awdurdod yn y gorffennol.

1.3 **PENDERFYNWYD i'r Cadeirydd gynrychioli'r Awdurdod fel un o'r Ymddiriedolwyr ar Fwrdd Atal Tân.**

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

2.1 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

3 COFNODION

3.1 Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar Fehefin 15$^{fed}$, 2009, i'w cymeradwyo.

3.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

4 MATERION YN CODI

4.1 *14 - Breinlen Cynorthwyo a Datblygu Aelodau Cymru* - rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybod i'r Aelodau fod y broses bellach wedi ei chwblhau, a bod y Panel Adolygu Cymheiriaid wedi ymweld â'r Pencadlys ar Hydref 8$^{fed}$ i gyfweld ag Aelodau o'r Awdurdod a'r swyddogion sy'n ymwneud â'r Freinlen. Dyfarnwyd y freinlen i'r Awdurdod, a byddai'r Cadeirydd yn mynychu seremoni gyflwyno ar

Dachwedd 19eg. Diolchodd y Prif Swyddog Tân i Alwen Davies a'i rhagflaenydd, Rhian Evans, am eu gwaith mewn perthynas â'r Freinlen, a diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau hynny a oedd wedi cael eu cyfweld gan y Panel.

5 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

5.1 Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd yn rhestru'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau a fynychodd y Cyng. Sharon Frobisher a'r Cyng. Aled Morris Jones yn rhinwedd eu swyddi fel Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yn y cyfnod rhwng Mehefin 15fed a diwedd Medi 2009.

5.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

6 CYNLLUN GWELLA DRAFFT 2009-10 A CHYNLLUN GWEITHREDU'R CYNLLUN LLEIHAU RISG 2010-11

6.1 Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Dirprwy Brif Swyddog Tân er mwyn gofyn am gymeradwyaeth yr Aelodau i Gynllun Gwella drafft Awdurdod Tân ac Achub 2009-10, sy'n ymgorffori cynllun gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg 2010-11, cyn ei gyhoeddi erbyn Hydref 31ain, 2009.

6.2 Aethpwyd â'r Aelodau drwy'r cynllun gan y Dirprwy Brif Swyddog Tân, gan dynnu sylw at dudalennau 38-39 (y perfformiad o'i gymharu ag awdurdodau tân ac achub eraill yn yr un `grŵp teulu' â Gogledd Cymru). Roedd y cymariaethau'n tynnu sylw at yr angen i barhau i weithio yn y meysydd canlynol: diogelwch tân cymunedol ac atal tanau damweiniol mewn cartrefi, yn enwedig y rhai sy'n arwain at anafiadau a marwolaethau. I ateb cwestiwn gan un o'r Aelodau ynglŷn â'r `grŵp teulu', cadarnhawyd bod y grwpiau'n seiliedig ar fod y Gwasanaethau Tân ac Achub yn debyg, yn fras, i'w gilydd o ran cymysgedd a phoblogaeth gwledig/trefol.

6.3 Cafodd y camau a oedd yn dilyn cynllun gweithredu blynyddol y Cynllun Lleihau Risg ar gyfer 2009-10 eu nodi ar dudalen 50. Camau'n parhau o'r cynlluniau gweithredu blaenorol oeddent, sef: cynnal adolygiad o argaeledd gofal swyddogion, a throsglwyddo 12 swydd, a oedd yn wreiddiol yn gysylltiedig â'r Peiriant Uchel ag Ysgol, a hynny er mwyn symud adnoddau i ddiogelwch tân cymunedol.

6.4 Roedd gweithgor bychan o'r Aelodau wedi ei sefydlu er mwyn cynnal adolygiad o risgiau a'r safonau gofal tân mewn ardaloedd gwledig. Roedd y gweithgor wedi cyfarfod yn rheolaidd hyd at Fawrth 2009, ac roedd dogfen ymgynghorol y Cynllun Lleihau Risg, a gyhoeddwyd dros haf 2009, wedi ymgynghori ynghylch pedwar prif egwyddor. A'r cyfnod ymgynghori wedi dod i ben, byddai'r gweithgor yn cael ei ail-

alw, gyda'r cyfarfod cyntaf wedi ei drefnu i'w gynnal ar Dachwedd 9fed, 2009.

6.5 Cododd y Cyng. P Evans y mater nad oedd unrhyw sôn am ddiogelwch tân cymunedol, ac y dylid sôn yn benodol yn y ddogfen fod yr Awdurdod yn aelod statudol o Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol.

6.6 **PENDERFYNWYD:**

**(i) cymeradwyo'r Cynllun Gwella drafft 2009-10, sy'n ymgorffori Cynllun Gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg 2010-11 i'w gyhoeddi erbyn Hydref 31ain, 2009, yn amodol ar gynnwys paragraff ynglŷn â diogelwch tân cymunedol a rôl statudol yr Awdurdod ar y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol;**

**(ii) nodi'r angen i gyhoeddi Cynllun Gwella ar gyfer 2009-10 a Chynllun Gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg ar gyfer 2010-11 cyn Hydref 31ain, 2009.**

7 ADRODDIAD GRŴP GORCHWYL Y PRIF SWYDDOG TÂN: ADOLYGIAD O ADRODDIAD 2007 I FARWOLAETHAU MEWN TANAU DAMWEINIOL MEWN CARTREFI

7.1 Atgoffwyd yr Aelodau gan y Prif Swyddog Tân fod adroddiad cyntaf y grŵp gorchwyl wedi ei lunio yn 2007 o ganlyniad i nifer uchel o farwolaethau mewn tanau damweiniol. Roedd yr adroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion er mwyn ceisio gostwng nifer digwyddiadau o'r fath yn y dyfodol.

7.2 Ym Mai 2009, roedd y Prif Swyddog Tân wedi ail-alw'r grŵp gorchwyl i gynnal adolygiad ffurfiol o'r argymhellion gwreiddiol ac i werthuso a mesur y cynnydd hyd yn hyn. Cafodd y ddogfen ddrafft ei chylchredeg ymhlith yr Aelodau yn y cyfarfod, gyda chafeat bod adroddiad yr adolygiad wedi ei fwriadu i'w ddefnyddio'n fewnol ond i'w rannu gyda phartneriaid allweddol, tra'r oedd yr adroddiad cyntaf yn un â golwg ar y cyhoedd.

7.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd, a derbyn yr adroddiad yn ei ddiwyg drafft.**

8 ALLDRO AMCANOL 2009-2010

8.1 Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybod i'r Aelodau am yr alldro amcanol a amcangyfrifid ar gyfer blwyddyn ariannol 2009-2010.

8.2 Caiff y gwariant yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n fanwl, gan dynnu sylw at unrhyw amrywiannau cyn gynted ag y bo modd. Yr arwyddion

cyfredol yw y bydd gorwariant bychan o £5,282. Mae'r gorwariant hwn yn fychan o'i gymharu â'r gyllideb sy'n £31 miliwn.

8.3 Roedd yr Aelodau'n fodlon â'r ffigurau a gyflwynwyd, a gofynnwyd am eglurhad ynglŷn â gweithwyr llywodraeth leol. Cadarnhawyd mai staff gweinyddol ac ymarferwyr diogelwch cymunedol oedd y rhain.

8.4 Cafodd ymarferiad gwerthuso swyddi ei gynnal yn ystod y flwyddyn, ond roedd rhai achosion lle nad oedd staff yn cael eu talu'r gyfradd briodol am eu rôl, felly roeddent wedi bod ar gyfraddau dros dro hyd oni fyddai canlyniadau'r gwerthusiad swyddi wedi eu cyhoeddi. Roedd hyn wedi achosi cynnydd yn llinellau gwariant cyflogau ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, roedd yr arwyddion cynnar yn dangos iddynt gael eu gosod ar y raddfa gyflog gywir, a bydd y mater hwn yn cael ei ddatrys yn y flwyddyn ariannol nesaf.

8.5 I ateb cwestiwn gan un o'r Aelodau ynglŷn â chyflog cyfartal ac ôl-daliadau, cadarnhawyd bod cytundeb wedi ei gyrraedd gyda'r cyrff cynrychioliadol y byddai ôl-daliadau'n cael eu hôl-ddyddio i Ebrill 2009, ac mae canlyniadau'r gwerthusiad gyda'r ymgynghorwyr cyfreithiol ar hyn o bryd er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw faterion yn ymwneud â chyflog cyfartal. Byddai pob mater mewn perthynas â gwerthuso swyddi'n cael ei drin mor sensitif ag y bo modd gyda'r staff.

8.6 I ateb cwestiwn ynglŷn â'r £60k oedd wedi ei neilltuo ar gyfer swyddog disgyblu, cadarnhawyd bod Cytundeb Lefel Gwasanaeth wrthi'n cael ei lunio gydag Awdurdod yr Heddlu er mwyn defnyddio eu swyddogion ymchwilio hwy ac i gael mynediad at eu harbenigedd, a hynny er mwyn cyflymu'r broses ddisgyblu. Roedd y £40k ar gyfer cyfraith cyflogaeth er mwyn ymdrin â nifer o dribiwnlysoedd cyflogaeth sydd i ddod.

8.7 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

9 RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDDION DARBODUS

9.1 Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn rhoi'r diweddaraf i'r Aelodau am newidiadau i'r dangosyddion darbodus a rheoli'r trysorlys, a hynny'n unol â gofynion Cod Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf a Chod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys.

9.2 Cafodd y Dangosyddion Darbodus a'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2009-2010 eu cymeradwyo ym Mawrth 2009. Ers iddynt gael eu cymeradwyo, mae'r dangosyddion darbodus, a amcangyfrifwyd ar gyfer 2009-2010 ac ymlaen, wedi newid oherwydd llithriant yn y rhaglen gyfalaf yn 2008-2009. Hefyd, cafwyd benthyciad newydd y Bwrdd

Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) gyda Chymdeithas Adeiladu'r Principality, a rhai newidiadau i'r rhestr o gyd-bartïon.

9.3 **PENDERFYNWYD:**

**(i) cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus diwygiedig;**

**(ii) cymeradwyo'r meini prawf estynedig ar gyfer buddsoddiadau, a nodi'r cyd-bartïon; a**

**(iii) nodi benthyciad newydd y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus.**

10 CREU'R CYSYLLTIADAU: RHEOLI ADEILADAU

10.1 Rhoddodd Joanne West o KPMG wybod i'r Aelodau fod adolygiad o reolaeth asedau Gwasanaeth Tân ac Achub wedi ei gynnal. Roedd yr adroddiad yn rhan o ymrwymiad Swyddfa Archwilio Cymru i raglen barhaus o waith, yn canolbwyntio ar yr agenda Creu'r Cysylltiadau trwy'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Aeth Joanne West â'r Aelodau drwy bob maen prawf yn yr adolygiad, a'r argymhellion a wnaed mewn perthynas â phob un.

10.2 Y casgliad cyffredinol a nodwyd oedd bod gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru drefniadau yn eu lle a ddylai gefnogi gwelliannau o ran effeithlonrwydd a darparu gwasanaethau, er mwyn diwallu anghenion a chwrdd â disgwyliadau defnyddwyr yr unfed ganrif ar hugain, a hynny'n seiliedig ar y canlynol:

- cynllun rheoli asedau yn ei le, a hwnnw'n dda ac yn glir
- y trefniadau rheoli perfformiad yn gweithio'n dda
- gweithdrefnau cadarn er mwyn cael gwerth am arian
- prosesau clir ar gyfer ymdrin â phrosiectau mawr a gwaith cynnal a chadw parhaus
- enghreifftiau da o arbed costau trwy gydweithredu.

10.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

11 Y LLYTHYR ARCHWILIO BLYNYDDOL 2008-09

11.1 Cyd-gyflwynwyd y llythyr archwilio blynyddol gan Joanne West a John Weston, gan dynnu sylw at y ffaith fod yr Awdurdod:

- wedi cydymffurfio â'r gofynion o ran adrodd ynglŷn â'r gwelliant ariannol a pherfformiad, a bod ganddo drefniadau priodol ar gyfer gweinyddu ac adrodd ynglŷn â materion ariannol, a sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio adnoddau yn 2008-09;
- bod ganddo drefniadau priodol yn eu lle ar gyfer sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau yn 2008-09; a

- bod y Cynllun Gwella 2009-10 yn ateb y gofynion statudol, ac yn darparu safbwynt cytbwys ynglŷn â pherfformiad yr Awdurdod yn 2008-09.

11.2 O edrych ar systemau ariannol pwysig yr Awdurdod, ni nodwyd unrhyw wendidau mawr mewn rheolaeth fewnol, ond roedd rhai meysydd lle gellid cael gwelliannau parhaus.

11.3 Cyfeiriodd John Weston at y berthynas weithio gadarnhaol oedd gan yr Awdurdod gyda'r archwilwyr a'r tîm asesu cymheiriaid. Nid oedd yr Awdurdod wedi casglu data am y dangosyddion cenedlaethol, a hynny oherwydd nifer uchel yr archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a gynhaliwyd, ond roedd system newydd wedi dod yn weithredol ar Hydref 15fed, 2009, a byddai honno'n casglu'r wybodaeth ystadegol hon yn y dyfodol.

11.4 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys Llythyr Archwilio Blynyddol 2008-09.**

12 LLEOEDD GWAG AR Y PWYLLGOR SAFONAU

12.1 Yn ei gyfarfod ym mis Mehefin, roedd yr Awdurdod wedi cytuno i hysbysebu am ddau aelod annibynnol newydd i'r Pwyllgor Safonau. Roedd pum cais wedi dod i law, a gofynnwyd i'r Aelodau enwebu pedwar aelod i sefyll ar y panel ymgynghorol.

12.2 **PENDERFYNWYD:**

**(i) penodi'r pedwar Aelod canlynol i'r panel ymgynghorol, sef: y Cyng. P C Evans; E C George; J V Owen ac W P Roberts;**
**(ii) cytuno y dylid dirprwyo'r dasg o benodi aelod lleyg o'r panel ymgynghorol i'r Cadeirydd, y Prif Swyddog Tân a'r Clerc.**

13 COFNODION CYFARFODYDD ER GWYBODAETH

13.1 Gofynnwyd i'r Aelodau nodi cofnodion cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar Orffennaf 13eg, a chofnodion drafft cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar Fedi 21ain.

13.2 Yn y cyfarfod ar Fedi 21ain, roedd adroddiad ar yr opsiynau o ran y gyllideb wedi ei gyflwyno, ac ers hynny, roedd y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer Cymru wedi ei gyhoeddi, a'r cyfartaledd drwy'r gogledd 1.73%.

13.3 Hefyd, rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybod i'r Aelodau fod cadarnhad wedi dod i law y bydd y Cynulliad yn cwrdd â chostau Firelink yn 2010-11.